


**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth, 10fed o Hydref, 2017 am 7:30 y.h**

**Yn Bresennol**
Cynghorwyr – Lisbeth James (LJ), Sara Williams (SW), Olwen Roberts (OR) John Owen (JO), Griffith Jones (GJ), Gwilym Williams (GW), Emlyn Hughes (EH) a'r Cyng. Aled Jones (AJ)

1. **Hysbysiadau y Cadeirydd** - Croesawyd pawb a oedd yn bresennol.

2. **Ymddiheuriadau –** Sianelen Pleming.

3. **Datgan Diddordeb –** Neb

4. **Diweddariadau asedau –** Cafwyd adroddiadau ar gyflwr gwahanol asedau'r Cyngor. Nododd y LJ fod y fainc ar y Groes yn Llithfaen yn werth ei gweld. Diolchwyd i GJ a'i wraig am ei glanhau a'i phaentio.

5. **Cofnodion**

5.1 Cynigodd JO fod cofnodion y 12 Medi, 2017 yn gywir. Eiliodd GJ ac fe'u mabwysiadwyd.

5.2 Materion yn codi –

5.2.1 **Dŵr yr Eifl** - Adroddod y Clerc ei fod wedi dilyn y mater i fyny trwy lythyr. Nid oes ymateb i law. Cynigiodd GJ iddo ef a JO ymweld â'r safle i weld yn union beth sydd angen ei wneud i ddatrys y broblem ac yna sicrhau amcanbris am ymgymryd a'r gwaith. Eiliodd OR. Cytunodd pawb.

5.2.2 **Llidiart y Llwybr Cyhoeddus** – Adroddod y Clerc ei fod wedi dilyn y mater i fyny trwy lythyr. **(DIM ANGEN EI DDILIN I FYNY ETO – DIM CYNNWYS YNG NGHOFNODION TACH)**

5.2.3 **Mynwent Pistyll –** Nododd GW fod y gwaith o atgyweirio'r bylchau yn y wal mewn llaw. Cadarnhaodd y Clerc iddo ohebu gyda'r Parch Richard Wood ynglyn a'r bwlch yn y wal arall ond nad oes ymateb i law eto. *Y Clerc i ddilyn i fyny.*

5.2.4 **Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn –** Nododd y Clerc ei fod wedi bod mewn cyswllt a'r Cyngor Sir ynglyn a'u hamserlen o ran gwagio'r buniau gwastraff ar y safle. Ni chafwyd ymateb eto. *Y Clerc i ddilyn i fyny.*
Nodwyd fod angen darganfod os oes gan y Cyngor Cymuned gyfrifoldeb am ran isa'r maes parcio. *Y Clerc i ymchwilio archif y Cyngor Cymuned a dod a mapiau o'r safle ag o i'r cyfarfod nesaf.*

5.2.5 **Archwiliwr Mewnol -** Mae'r Cyngor Sir wedi cadarnhau ar lafar eu bod yn fodlon ymgymryd a'r gwaith am 2017/18. *Y Clerc i gwblhau'r gwaith papur.*

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

6. **Canolfan Llithfaen -** Adroddodd y Clerc ei fod wedi cysylltu â Dafydd Rhun Jones o Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd i sefydlu proses o ran cyngor cyfreithiol annibynnol. Fel man cychwyn cytunwyd fod y Clerc yn cylchredeg copi o'r Brydles ac Is-brydles ddrafft iddo a bod Aelodau'r Cyngor Cymuned yn darparu cwestiynau iddo eu hystyried. Hysbyswyd Cyfreithiwr y Cyngor Sir fod y Cyngor Cymuned wedi penodi Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd i'w cynrychioli. Nodwyd ei bod yn bwysig fod y ddau barti yn gweithio o'r run drafftiau.
   Cynigiodd LJ fod Aelodau'r Cyngor Cymuned yn defnyddio'r templedi a gyflenwyd i nodi unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am y prydlesi drafft ar gyfer cyfarfod Tachwedd. Eiliodd EH. Cytunodd pawb. *Yr Aelodau i weithredu*.

7. **Ceisiadau Cynllunio –** Tafarn y Fic Llithfaen – Adeiladu balconi i'r cefn ac addasiadau i'r edrychiad cefn cyfeirnod: C17/0971/43/LL.
   Cynigiodd SW fod y Cyngor yn cefnogi'r cais ac eiliodd OR. Cytunodd pawb. *Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.*

8. **Materion Lleol eraill a godwyd o flaen llaw –**

8.1 **Gor-yrru trwy Llithfaen** –Nododd y Clerc ei fod wedi gyrru neges e-bost yn gofyn am adroddiad cynnydd ynglyn a'r gor-yrru yn Llithfaen erbyn cyfarfod 10fed o Hydref. Nid oes ymteb i law. *Y Clerc i gysylltu eto*

8.2 **Y Lôn o flaen Tŷ Nest –** Daeth cwyn i law fod pant o flaen Tŷ Nest yn berygl. *Y Clerc i drefnu cyfarfod safle ar gyfer y swyddog priodol o'r Cyngor Sir, GJ ac AJ i drafod ffordd ymlaen cyn gynted ac y bo modd. OR am gael gair gyda'r person a ddaeth a'r mater i sylw'r Cyngor.*

8.3 **Wal y Nant –** Wedi'i thrafod eisioes.

8.4 **Toiledau Cyhoeddus Llithfaen** – Wedi'u trafod eisioes.

8.5 **Aelodaeth SLCC ar gyfer y Clerc –** Esboniodd y Clerc mai'r SLCC ydyw'r corff sy'n cynrychioli a helpu Clercod Cynghorau Tref a Chymuned. Gofynwyd i'r Cyngor os y byddant yn fodlon talu 50% o aelodaeth blynyddol y Clerc am 2018. (dim mwy na £34 ar raddfa 2017). Cynigiodd JO fod y Cyngor yn cymeradwyo cais y Clerc. Eiliodd: EH. Roedd pawb yn gytün.

9. **Gohebiaeth -**

9.1 **Llythyr Grwp Mynediad Dwyfor -** Derbynwyd llythyr gan Ysgrifenyddes Grwp Mynediad Dwyfor yn gwneud cais am arian tuag at eu costau. Cynigiodd GW fod y Cyngor yn ystyried y cais ym mis Mawrth, yn unol a'r drefn. Eiliodd EH. Roedd pawb yn cytuno. *Y Clerc i hysbysu'r Ysgrifenydd.*

9.2 **Llywodraethwyr Cymunedol Ysgolion Gwynedd** – Nodwyd fod cais wedi dod i law i'r Cyngor enwebu cynrychiolydd ar gyfer bod yn Llywodraethwr Cymunedol ar yr Ysgol Gynradd Leol. Cynigiodd GW fod y cynrychiolwyr o'r Cynghoau Cymuned ple lleoli'r yr Ysgolion sy'n gwasanethu'r ardal yn gwarchod buddiannau plant Wardiau Pistyll . Eiliodd

JO. Cytunodd pawb.

9.3 **Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg (Cyngor Sir a Hunan*iaith*) -** Daeth gohebiaeth i law yn tynnu sylw'r cyngor at gynllun hunan***iaith***. Pwrpas y cynllun yw i hyrwyddo'r Gymraeg. Canolbwyntir ar hyrwyddo ei defnydd gyda theuluoedd, ymysg pobl ifanc, grwpiau a chymdeithasau yn y gymuned yn ogystal â busnesau lleol. Gall hunan*iaith* ddarparu adnoddau i'w rhannu gyda chymdeithasau i'w helpu i gydfynd ac amod iaith Gymraeg y Cyngor Cymuned wrth wobrwyo arian grant iddynt. Mae'r ohebiaeth yn tynnu sylw at gyllideb, yn cynnig swyddog i fynychu cyfarfod i drafod mewn mwy o fanylder neu trafodaeth ar sut i ddylanwadu ar gymdeithasau a grwpiau. Penderfynwyd fod y Cyngor Cymuned yn nodi'r wybodaeth yma.

9.4 Cyflwynyd pecyn o ohebiaeth amrywiol pellach i'r Aelodau er gwybodaeth. Ni chafwyd sylwadau.

10. **Cyllid –**

10.1 **Ffurflen Flynyddol 2016/17 -** Cyflwynwyd Ffurflen Flynyddol 2016/17, yn cynnwys barn archwilio BDO, i'r Cyngor. Cynigiodd GW fod yn Cyngor yn ei chymeradwyo. Eiliodd EH. Cytunoddd pawb.

Hefyd cyflwynwyd y materion atodol a oedd yn codi gan BDO. Cynigiodd GW fod *y Clerc yn cysylltu ymhellach gyda BDO i gael eglurhad pellach ymglyn a'r materion sy'n codi cyn ystyried os oes angen darparu cynllun gweithredu.* Eiliodd EH. Cytunodd pawb.

10.2 **Adolygu'r gyllideb/balansio cyfrifon –**

Adolygwyd a chymeradwywyd y:

1. cysoniad banc.
2. gyfriflen proffid a cholled.
3. rhagolygon am 2017/18

Cynigiodd JO fod y Cyngor yn dyrannu'r gweddill o'r arian a ddynodwyd ar gyfer etholiad mis Mai (£899) ar gyfer costau cyngor cyfreithiol annibynnol prydles/is-brydles Canolfan Llithfaen. Eiliodd OR a chytunodd pawb.

10.3 **Cadarnhau cynlluniau cronfeydd wrth gefn -** Esboniodd y Clerc mai'r canllaw rhesymegol yw i Gyngor Cymuned gael digon o arian wrth gefn i gadw i fynd am 6 mis. Cynigiodd GW fod y Cyngor Cymuned yn defnyddio'r egwyddor yma gan gadw arian capel ucha arwahan wrth gyfrifo praeseb 2018/19. Eiliodd SW a chytunodd pawb.

10.4 **AON – BHIB** – Er gwybodaeth, nododd y Clerc iddo dderbyn gohebiaeth yn cadarnhau mai cwmni broceriaid BHIB fydd yn darparu gwaith papur adnewyddu yswiriant y Cyngor yn 2018.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

10.5 **Trafodion y gyfriflen banc ddiweddaraf –**

Derbyniadau: Praeseb - £4250.00

Taliadau: Cyngor Gwynedd (costau etholiad Mai, 2107) - £351.00
Osian Williams (Torri Gwair) - £260.00

Balans cyfrif cyfredol: £6809.77
Balans Cyfrif cadw: £2143.96

10.6 T**aliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -**

| | | |
|---|---|---|
| E Griffith (Cyflog Clerc) | £160.00 | |
| √ (Costau/treuliau) | £25.00 | £185.00 |

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 14eg o Dachwedd, 2017 am 7:30 y.h.**

**Cynigiodd GW ei bod yn iawn i Luned archwilio archif y Cyngor i weld os oes yno wybodaeth am berchnogaeth y cae chwarae. Eiliodd SW. Pawb yn cytuno.**
**Mae gan John bapurau y Ganolfan hefyd.**

**Cysylltu gyda Mary – Hughes Jones Dyson**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347